



Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Chwefror 2015

Annwyl Mark,

Y Gronfa Byw'n Annibynnol

Byddwch yn ymwybodol i swyddogion Llywodraeth Cymru roi sesiwn frifffio ffeithiol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 21 Ionawr ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drefniadau gofal a chymorth yn y dyfodol ar gyfer pobl sy'n cael arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol (y Gronfa).¹ Trefnwyd y sesiwn frifffio i roi cyfle i aelodau'r Pwyllgor drafod yr opsiynau sy'n cael eu hystyried i ddarparu cymorth ar gyfer y bobl sy'n cael arian o'r Gronfa pan fo'r cyfrifoldeb amdani'n trosglwyddo o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ar 1 Gorffennaf 2015. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ar 29 Ionawr i ategu'r dystiolaeth lafar a roddwyd gan y swyddogion.²

Yn dilyn y sesiwn frifffio, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad ynghylch y pwyntiau a ganlyn.

Sicrhau tegwch y trefniadau newydd

Yn ystod y sesiwn frifffio, nododd y swyddogion fod cyfran o ddefnyddwyr y gwasanaeth o'r farn efallai nad yw awdurdodau lleol yn darparu'r un lefel o gymorth i'r bobl nad ydynt yn cael arian o'r Gronfa, er bod ganddynt

¹ Llywodraeth Cymru, [Cronfa Byw'n Annibynnol - Trefniadau ar gyfer y Dyfodol i Gefnogi'r Sawl sy'n derbyn taliadau yng Nghymru](#), 3 Hydref 2014

² Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Gwybodaeth ychwanegol](#), 29 Ionawr 2015

anghenion tebyg, o bosibl, i'r rhai sy'n cael arian o'r Gronfa.³ Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau na fydd unigolion sy'n agored i niwed ar eu colled o gwbl o ganlyniad i'r trefniadau newydd yn lle'r Gronfa yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod Llywodraeth y DU wedi penderfynu y bydd yr arian, yn Lloegr, yn cael ei drosglwyddo i gyllidebau awdurdodau lleol. Mae dadansoddiad cydraddoldeb Llywodraeth y DU ynghylch dod â'r Gronfa i ben yn dod i'r casgliad a ganlyn:

“It is almost certain that closure of the ILF will mean that the majority of users will face changes to the way their support is delivered, including the real possibility of a reduction to the funding they currently receive. This is because the ILF funds some aspects of care that some local authorities do not and may also provide different levels of flexibility in the use of such funding. The ILF may also provide a greater level of funding than would be available if the local authority had sole responsibility for meeting an individual’s care and support needs.

Closure of the ILF in 2015 and the transfer of funding to local authorities (...) is likely to have an adverse effect on ILF users because of monetary reductions in the amount of support a person receives and because of changes in how that support is delivered.”⁴

Mae'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb yn mynd ymlaen i ddweud ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o ostyngiad i'r hyn y mae nifer fawr o ddefnyddwyr yn ei gael ar hyn o bryd.⁵

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch y canlynol:

- o ran y bobl sy'n cael gofal cymdeithasol nad yw'n dod o'r Gronfa, sydd ag anghenion tebyg i'r sawl sy'n cael arian o'r Gronfa, a fyddai ganddynt hawl i gael lefel gyfatebol o arian, drwy daliadau uniongyrchol, ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru;

³ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 21\] 21 Ionawr 2015](#)

⁴ Datganiad i'r wasg yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Closure of the Independent Living Fund: equality analysis](#), 6 Mawrth 2014

⁵ Datganiad i'r wasg yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Closure of the Independent Living Fund: equality analysis](#), 6 Mawrth 2014

- yr hyn a drafodwyd o ran sicrhau darpariaeth deg wrth benderfynu ar y trefniadau a roddir ar waith pan fydd y Gronfa yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ar 1 Gorffennaf 2015;
- sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur effaith y trefniadau newydd yn lle'r Gronfa, er mwyn dangos nad yw unigolion ar eu colled.

Rheoliadau asesu a chymhwysedd

Noda'r Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y rheoliadau a'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 3 (Asesu) a Rhan 4 (Diwallu Anghenion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.⁶ Felly, mae'n anodd asesu'n gywir sut y bydd newidiadau i'r broses asesu a'r meini prawf cymhwysedd yn effeithio ar y sawl sy'n cael arian o'r Gronfa.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yr effaith bosibl ar y sawl sy'n cael arian o'r Gronfa yn cael ei hystyried wrth ddatblygu'r rheoliadau asesu a chymhwysedd newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfraddau amrywiol ar gyfer gofal cymdeithasol

Noda'r Pwyllgor y gallai fod yn bosibl o hyd rhoi taliad uniongyrchol i unigolion nad ydynt yn cael arian o'r Gronfa i roi rhywfaint o ddewis a rheolaeth iddynt o ran y cymorth sydd ei angen arnynt ar gyfer eu hanghenion gofal.⁷ Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd – neu gynlluniau sydd ar y gweill – i adolygu'r trefniadau ar gyfer taliadau uniongyrchol yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â sut y gallai cyfraddau amrywiol fesul awr ar gyfer gwasanaethau gofal effeithio ar ba mor ddefnyddiol yw taliadau uniongyrchol i unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Trefniadau dros dro

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai gymryd amser i weithredu'r trefniadau ar gyfer yr opsiwn a ddewiswyd, ond mae'n pwysleisio ei bod yn hynod o bwysig

⁶ Llywodraeth Cymru, [Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 - Ymgynghoriad ar y rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhan 3 o'r Ddeddf, ar Asesu, a Rhan 4 o'r Ddeddf, ar Ddiwallu Anghenion](#), 6 Tachwedd 2014

⁷ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 104\], 21 Ionawr 2015](#)

bod unrhyw drefniadau dros dro yn cael eu rhoi ar waith a'u cyfleu'n glir ymlaen llaw cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y Gronfa ar 1 Gorffennaf. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu:

- cadarnhad y bydd trefniadau dros dro ar waith i sicrhau na fydd y broses o drosglwyddo yn tarfu ar wasanaethau gofal a chymorth y rhai sy'n cael arian o'r Gronfa ar hyn o bryd;
- cyhoeddi amserlen Llywodraeth Cymru, a'r cynllun cyfathrebu cysylltiedig, gyda manylion unrhyw drefniadau dros dro y gallai fod eu hangen o 1 Gorffennaf ymlaen.

Cyllid ar gyfer blynyddoedd dilynol

Cadarnhaodd y swyddogion fod trafodaethau â Thrysorlys y DU ynghylch cyllid y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2015–16 yn parhau.⁸ Gan dybio y bydd arian y Gronfa, neu arian cyfatebol, yn parhau ar ryw ffurf ar ôl mis Gorffennaf 2015, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad yngylch pa drefniadau a roddir ar waith i gefnogi taliadau i'r bobl sy'n gymwys i'w cael yng Nghymru yn y blynyddoedd dilynol os na fydd y cyllid gan Lywodraeth y DU yn parhau, neu os bydd lefel y cyllid yn gostwng.

Mae'r Pwyllgor yn deall y caiff penderfyniad ei wneud yn fuan ynghylch trefniadau ar gyfer y Gronfa yn y dyfodol a byddai'n croesawu amlinelliad o sut y mae'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn wedi'u hystyried wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

⁸ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 104\], 21 Ionawr 2015](#)